Drwy e-bost

Eich cyf . Your ref - 303
Ein cyf . Our ref

13 Mehefin 2011

Annwyl

**Cais am Wybodaeth.**

Cyfeiriaf at eich cais, a drosglwyddwyd oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ar 8 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn,

*A oes rhestr o ACau yn dangos cost staff pob un, os gwelwch yn dda?*

*Hefyd, beth yw polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyflogi aelodau o'u teulu gan ACau, ac os gellir cyflogi aelodau o'u teulu felly, a yw'n bosibl cael gwybod faint mae pob un yn cael ei dalu o ran cyflogau a threuliau?*

Rwyf yn ymddiheuro eto ei bod wedi cymryd cyhyd i ymateb i'ch cais am wybodaeth. Y rheswm am hyn yn rhannol yw'r angen i ystyried data personol ac i ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad (ACau), a'r gwaith cyfrifo angenrheidiol i gael cyfanswm y costau ar gyfer pob AC. Mae'r ymateb hwn yn dilyn o'r ymateb dros dro a anfonwyd atoch ddiwedd y llynedd ac a eglurwyd gennych inni ym mis Ionawr eleni.

Yn gyntaf, hoffwn amlinellu'r dull presennol o ymwneud ag Acau yn cyflogi aelodau o'r teulu, gan fod rhai newidiadau wedi digwydd yn y maes hwn yn ddiweddar. Yn ei adroddiad, "Addas i'r Diben", a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, dywedodd y Bwrdd Taliadau annibynnol: "Bydd dal modd cyflogi aelodau o deulu Aelodau o hyd ond ni fydd yr Aelod sy'n cyflogi yn chwarae cymaint o ran yn y broses recriwtio ar gyfer y penodiadau newydd. Tîm Adnoddau'r Gweithlu y Cynulliad fydd yn cynnal yr asesiadau a'r cyfweliadau terfynol. Os penodir aelod o'r teulu, rhaid iddi fod yn amlwg mai dyma'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd o ran sgiliau, gallu a phrofiad." Gellir gweld yr adroddiad cyfan drwy ddilyn y linc a ganlyn, ac mae'r adran berthnasol ym mharagraffau 21 i 26:

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board.htm

Gallaf ddweud wrthych fod gan ACau hawl i wneud cais am Lwfans Cyflogau Staff i dalu am gostau pobl maen nhw'n eu cyflogi i wneud gwaith gweinyddol, clerigol neu ysgrifenyddol neu i wneud gwaith ymchwil mewn cysylltiad â'u rôl fel AC. Mae'r lwfans yn cynnwys y cyflog a'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n gysylltiedig ar gyfer hyd at dri aelod o staff cyfwerth ag amser llawn, a hynny o dri band wedi eu diffinio.

Mae Penderfyniad Cyflogau a Lwfansau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau Cynulliad a Swyddogion) (Rhif 2) 2011 yn rhoi manylion am y rheolau'n ymwneud â'r costau staff y mae gan ACau hawl i'w cael, a gellir gweld y Penderfyniad yma: http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-expenses-2.htm  Gwelwch o'r penderfyniad fod yna rai cyfyngiadau ar nifer y staff mae gan ACau hawl i'w cyflogi o bob un o'r bandiau cyflog.

Mae angen ichi wybod y gall AC drosglwyddo hyd at 25 y cant o werth ei Lwfans Costau Swyddfa i'w Lwfans Cyflogau Staff. Effaith hyn yw cynyddu maint y Lwfans Cyflogau Staff ond lleihau faint o arian sydd ar gael ar gyfer rhedeg ei swyddfa etholaeth neu ei swyddfa ranbarthol.

Yn yr un modd, gall AC drosglwyddo arian o'i Lwfans Cyflogau Staff ef neu hi i'r Lwfans Grŵp Plaid, ac i'r gwrthwyneb, gan gynyddu neu leihau maint y cyllidebau hynny.

Mae'r atodiad sydd ynghlwm yn rhoi cyfanswm y costau staff ar gyfer pob AC am y tair blynedd diwethaf. Mae hefyd yn nodi pa ACau sydd â pherthnasau yn gweithio fel Staff Cymorth, a bandiau cyflog y Staff Cymorth hynny. Sylwch fod gan Staff Cymorth hawl i gael codiad cyflog blynyddol nad yw yn ôl disgresiwn.

Ystyrir bod union gyflog y staff cymorth hynny a manylion eu treuliau yn "ddata personol" at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998.  Felly, cânt eu heithrio rhag eu datgelu dan Adran 40(a) Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae esboniad llawn o'r rhesymu y tu ôl i'r penderfyniad hwn i'w weld yn Atodiad A.

Rydych eisoes wedi cael gwybodaeth am y cofnod o aelodau teulu, a gellir gweld y cofnod ar y wefan yma: http://www.cynulliadcymru.org/memhome/employment_of_family_members.htm..

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yma: http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar y Rhyngrwyd yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm , rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru